# Cylchlythyr Dosbarth Llywelyn Ionawr 2023

Ysgol Tregarth

## Croeso yn ôl!

Blwyddyn Newydd dda a chroeso yn ôl i'r ail dymor ysgol. Gobeithio fod pob un ohonoch wedi mwynhau'r Nadolig ac wedi cadw'n saff dros y gwyliau.

## Thema

Thema dosbarth Llywelyn yn ystod yr ail dymor yw 'Deinosoriaid.' Byddem yn dysgu am ddeinosoriaid oedd yn crwydro'r byd amser maith yn ôl drwy gasglu llawer o ffeithiau a chywain gwybodaeth. Ble yn y byd darganfuwyd y deinosoriaid? Archwilio esgyrn a ffosiliau deinosoriaid, creu modelau a dylunio a chreu llosgfynydd.
Bydd cyfleoedd i'r plant ysgrifennu disgrifiad, llyfr gwybodaeth am ddeinosor, poster yn eisiau a stori ddychmygol.

Os oes gennych unrhyw adnodd / llyfrau sy'n cyd-fynd a'r thema 'Deinosoriaid' mae croeso i'r plant ddod a nhw i mewn i'r ysgol. Sicrhewch fod enw'r plentyn yn glir arnynt.



## Darllen

Mae sesiynau darllen yn parhau i'w cynnal yn ddyddiol. Bydd llawer o ymarferion darllen a deall yn cael eu hymarfer yn ystod y tymor er mwyn datblygu dealltwriaeth y plant.
Gofynnwn yn garedig i chi ddarllen gyda'ch plentyn yn ddyddiol gan gofnodi sylwadau yn y cofnod darllen. Plant ddod a'u ffolderi darllen yn ôl unwaith maent wedi darllen y llyfr yn hyderus ac yn gallu trafod prif ddigwyddiadau.



## Mathemateg

Bydd y plant yn cymhwyso eu sgiliau lluosi a rhannu, mesur a siâp yn ystod yr ail dymor. Cyfleoedd iddynt fesur yn y dosbarth ac yn ar awyr agored, adeiladu gan ddefnyddio mesuriadau amrywiol a llawer o ddatrys problemau.
Siâp – bydd y plant yn dysgu gwneud lluniau siapiau 2D a 3D, enwi siapiau ac adnabod priodweddau
Siapiau 2D a 3D, didoli a dosbarthu siapiau a llawer mwy.
Gofynnwn yn garedig i chwi ymarfer tabl 2, 5, 10 a 3 gyda'ch plentyn gartref.

Dyma ychydig o ddolenni er mwyn ymarfer y sgiliau hyn:
https://www.topmarks.co.uk/maths-games/hit-the-button
https://www.topmarks.co.uk/times-tables/coconut-multiples
https://www.topmarks.co.uk/carroll-diagrams/2d-shapes
https://www.topmarks.co.uk/symmetry/symmetry-matching
https://www.topmarks.co.uk/ordering-and-sequencing/coconut-ordering
https://www.topmarks.co.uk/maths-games/measuring-in-cm

## Gwaith Cartref

Gweler isod rhestr o eiriau aml-uchel. Dyma'r geiriau sy'n ymddangos yn aml wrth i'r plant ddarllen ac ysgrifennu.
Gofynnwn yn garedig i chwi ymarfer darllen a sillafu'r geiriau yma'n rheolaidd gyda'ch plentyn.

Bydd llythyr ar wahân yn dilyn yn gofyn i'r plant greu darn o waith sy'n ymwneud a'r thema 'Deinosoriaid', cyfle i'r plant arddangos a thrafod eu Gwaith i weddill y dosbarth.

**Gwaith cartref wythnos :**
Ar gychwyn thema newydd, rydym yn awyddus i dderbyn eich mewnbwn ac eich syniadau ynglŷn â'r math o brofiadau/gweithgareddau/tasgau y gellir eu cyflwyno yn ystod y tymor. Gofynnwn yn garedig i chwi drafod a chasglu syniadau gyda'ch plentyn ac yna ysgrifennu'r syniadau ym mhob bocs. Diolch yn fawr iawn ac edrychwn ymlaen i dderbyn eich mewnbwn a syniadau.

## Cylchlythyr Dosbarth Llywelyn Ionawr 2023

### Trefn Staffio'r Dosbarth

Bydd swyddog o'r Urdd yn datblygu sgiliau Iechyd a Lles y plant bob **bore dydd Mercher** am gyfnod o 6 wythnos.
Gofynnwn yn garedig i'r plant ddod i'r ysgol yn gwisgo eu dillad ymarfer corff ar ddydd Mercher.
**Gwersi ymarfer corff bob dydd Mercher wythnos 09.01.23 ymlaen.**
Bydd Mrs Caryl Evans yn gyfrifol o'r dosbarth dydd Mercher. Yn ystod y dyddiau yma, bydd Mrs Caryl Evans yn datblygu sgiliau TGCh a lles y disgyblion.

Amserlen Wythnosol:

| Dydd | Athro / Athrawes y dosbarth | Sgiliau / Pynciau a ddatblygwyd |
|---|---|---|
| Dydd Llun – Gwener | Mrs Llinos Williams | Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>Mathemateg a Rhifedd<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br>Celfyddydau Mynegiannol<br>Dyniaethau |
| Bore Mercher | Swyddog yr Urdd<br>Mrs Caryl Evans | Addysg Gorfforol (Iechyd a Lles) |
| Dydd Mercher | Mrs Caryl Evans | Grwpiau darllen<br>Mathemateg Pen<br>Sgiliau TGCh<br>Lles - gwytnwch |

### Seesaw

Er mwyn sicrhau cyfathrebiad cyson gyda chi rhieni / gwarcheidwaid bydd 'Seesaw' yn parhau fel platfform digidol i rannu newyddion, i dderbyn a gyrru negeseuon yn ogystal â rhannu profiadau a chynnydd y disgyblion.
Gofynnwn yn garedig i chwi ffonio'r ysgol yn uniongyrchol nid drwy Seesaw ynglŷn â phresenoldeb, apwyntiadau, salwch, pryder.
Diolch

### Atgoffa Cyffredinol

**Amser cychwyn –** Mae angen i bob plentyn gyrraedd yr ysgol yn brydlon erbyn **8:50yb.**

**Amser Gorffen –** Mae disgyblion y CS (Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2) yn gorffen am **3yp**. Mae croeso i blant y CS sydd â brawd neu chwaer hŷn (sy'n gorffen am 3.30yp) fynychu clwb ar ôl ysgol o 3-3.30yp.

**Ffrwyth** - Caniateir i blant ddod a diod o ddŵr a ffrwyth i'r ysgol i fwyta yn ystod amser egwyl.

Os oes gan blant adnoddau, llyfrau, darnau o waith sy'n cyd-fynd a thema'r dosbarth ac y byddent yn hoffi eu rhannu gyda'r dosbarth, gwych. Rwyf yn gofyn yn garedig nad yw plant yn dod a theganau na gwrthrychau eraill i'r ysgol.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| mae | dyma | fi | yn | y |
| am | ac | ar | tŷ | yr |
| na | rydw i | dod | wedi | gan |
| bod | mynd | ni | hoffi | hi |
| ei | i'r | roedd | chi | aeth |
| nhw | rhoi | un | mae'r | allan |
| ysgol | cael | gyda | mawr | chwarae |
| bach | dau | dydd | yma | tro |
| dŵr | llun | daeth | sydd | bwyd |
| drws | haul | fyny | pobl | coed |
| rhai | dail | mwy | drwg | gwely |
| rhaid | iawn | saith | wyth | bydd |
| siop | brawd | merch | hwyl | gweld |
| dweud | gwallt | pump | chwaer | ffordd |
| bwrdd | chwech | gwyrdd | gwaith | pedwar |
| olaf | wrth | gallu | arall | bwyta |
| llawer | pethau | neidio | byddwch | wrth |
| meddai | wedyn | melyn | afal | helpu |